



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Addasiadau rhesymol i gymwysterau cyffredinol

Arfer pŵer rheoleiddiol Gweinidogion Cymru o dan
Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2012



Addasiadau rhesymol i gymwysterau cyffredinol

Cynulleidfa	Sefydliadau dyfarnu; rheoleiddwyr cymwysterau; grwpiau anabledd; canolfannau sy'n cyflwyno dysgwyr ar gyfer arholiadau ac eraill sydd â diddordeb mewn cymwysterau cynhwysol.
Trosolwg	Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r ymatebion dderbyniwyd i ymgynghoriad ar gynigion Gweinidogion Cymru o ran addasiadau rhesymol i gymwysterau cyffredinol ar gyfer ymgeiswyr anabl. Ymgynghorwyd er mwyn hysbysu penderfyniadau am achosion lle na ddylid gwneud addasiad rhesymol.
Camau i'w cymryd	Dim – er gwybodaeth yn unig.
Rhagor o wybodaeth	I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â: Nia Jones Is Adran Cymwysterau a Dysgu Llywodraeth Cymru Tŷ'r Afon Bedwas CF83 8WT Ffôn: 01443 663725 e-bost: infoquals@cymru.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Mae'r ddogfen hon a dogfennau'r ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk/ymgyngoriadau
Dogfennau cysylltiedig	Dim.

Cynnwys

Cyflwyniad	2
Y manylebau arfaethedig	3
Ymgynghoriad	5
Ymatebion i'r cynigion	7
Sylwadau clo	26

Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru am sicrhau bod cymwysterau cyffredinol, er enghraifft TGAU a Safon Uwch, mor hygyrch â phosibl i ddysgwyr, yn cynnwys y rheini ag anableddau.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar gyrff cymwysterau i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr anabl. Mae trin ymgeiswyr yn deg, a gwneud yn siŵr bod y cymhwyster yn parhau i fod yn ddilys, yn ystyriaeth bwysig.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru (y rheoleiddwyr cymwysterau yng Nghymru) bennu lle **na** ddylid gwneud addasiad rhesymol.

Wrth lunio'r manylebau hyn, rydym wedi ystyried y canlynol:

- yr angen i leihau'r graddau y mae pobl anabl yn cael eu rhoi o dan anfantais oherwydd eu hanableddau wrth geisio ennill y cymhwyster
- yr angen i sicrhau bod y cymhwyster yn rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y sawl sydd wedi'i gyflawni
- yr angen i gynnal ffydd y cyhoedd yn y cymhwyster.

Er mwyn helpu i sicrhau bod y manylebau yn briodol, gwnaethom gynnal ymgynghoriad ar ein cynigion.

Ar 11 Gorffennaf 2011, lansiwyd yr ymgynghoriad ar addasiadau rhesymol i gymwysterau cyffredinol. Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ymatebion oedd 3 Hydref 2011.

Hysbysebwyd bod yr ymgynghoriad ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn yr eGylchlythyr Dysg. Hefyd, anfonwyd e-bost uniongyrchol at aelodau'r Grŵp Cynghori ar Fynediad i Asesiadau a Chymwysterau (AAQAG) a gofynnwyd iddynt ei rannu â chydweithwyr perthnasol. Cysylltwyd â rhanddeiliaid eraill yn uniongyrchol. Gyda chaniatâd Ofqual, y rheoleiddiwr yn Lloegr, anfonwyd e-bost uniongyrchol at aelodau'r Access Consultation Forum (ACF). Hefyd, rhoddodd swyddog o Lywodraeth Cymru gyflwyniad mewn digwyddiad ymgynghori Ofqual, gan egluro y byddai croeso i unrhyw unigolyn neu gorff gyda diddordeb mewn cymwysterau cyffredinol yng Nghymru gyflwyno sylwadau i'r ymgynghoriad.

Cynhaliodd Ofqual ymgynghoriad tebyg, gan gynnig fwy neu lai yr un manylebau¹.

¹ Roedd rhan fwyaf y manylebau yn union yr un fath. Yr eithriadau oedd: (i) Gofynnodd Ofqual a oedd ymatebwyr yn cytuno â'u cynnig i **beidio** â llunio manyleb ynghylch Addaswyr Iaith Lafar (ni wnaeth Lywodraeth Cymru ofyn cwestiwn am feysydd lle nad oeddent yn cynnig manylebau); (ii) Gofynnodd Llywodraeth Cymru gwestiwn am Gymhwyster Bagloriaeth Cymru; nid oedd hyn yn berthnasol i Loegr.

Y manylebau arfaethedig

Dyma'r manylebau a gynigwyd gan Weinidogion Cymru.

Esemptiadau pan fydd popeth arall wedi methu

Ni cheir defnyddio esemptiad fel addasiad rhesymol, heblaw mewn achosion lle nad oes unrhyw addasiad rhesymol arall yn briodol.

Faint o'r cymhwyster y gellir cael esemptiad ohono

Ni cheir defnyddio esemptiad fel addasiad rhesymol a fyddai'n golygu mwy na 50 y cant o'r marciau sydd ar gael (wedi'u pwysoli) ar gyfer cymhwyster.

Gyda lefel A, dylid cwblhau o leiaf un uned A2.

Gyda phrif ddysgu, mae 50 y cant o'r cymhwyster gyfwerth â 50 y cant o'r oriau dysgu dan arweiniad.

Esemptiad o gydran gyfan

Ni ddylid defnyddio esemptiad o ran o gydran fel addasiad rhesymol.

Dim ond pan fydd ymgeisydd yn methu cael mynediad at unrhyw ran o'r gydran honno y dylid caniatáu esemptiad ar gyfer y gydran gyfan.

Ffiniau gradd neu farciau pasio

Ni ddylid ei gwneud hi'n ddyletswydd ar gyrff dyfarnu i wneud addasiadau rhesymol i ffiniau gradd a/neu farciau pasio ar gyfer ymgeiswyr anabl.

Darllenwyr

Ni ddylid defnyddio darllenwyr dynol fel addasiad rhesymol pan fydd gallu'r ymgeisydd i ddarllen yn cael ei asesu.

Ysgrifenyddion a systemau adnabod llais

Ni ddylid defnyddio ysgrifenyddion na systemau adnabod llais fel addasiad rhesymol pan fydd gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu yn cael ei asesu.

Iaith Arwyddion Prydain

Ni ddylid defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel addasiad rhesymol pan fydd gofyn i ymgeiswyr arddangos eu gallu i siarad neu wrando.

Cynorthwyyr ymarferol

Ni ddylid defnyddio cynorthwyyr ymarferol fel addasiad rhesymol pan fydd gofyn i ymgeiswyr gyflawni tasgau corfforol neu arddangos sgiliau corfforol sy'n rhan o amcanion asesu'r cymhwyster.

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

O fewn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, ni ddylai cyrff dyfarnu fod â dyletswydd i eithrio ymgeiswyr o:

- (a) y gofyniad opsiwn;
- (b) elfennau Sgiliau Allweddol / Sgiliau Hanfodol Cymru; Cymru, Ewrop a'r Byd; Addysg Bersonol a Chymdeithasol; Addysg Gysylltiedig â Gwaith ac Ymchwiliad Unigol y craidd.

Ymgynghoriad

Cyflwynwyd naw cwestiwn ar ffurf dogfen profforma ar gyfer ymateb i'r ymgynghoriad. Darparwyd y ddogfen mewn ffurflen ar-lein er mwyn gallu ei dychwelyd yn rhwydd drwy e-bost.

Cafwyd 12 ymateb i'r ymgynghoriad ar-lein gan ystod o sefydliadau, gan gynnwys grwpiau anabledd a sefydliadau dyfarnu. Ni chafwyd yr un ymateb gan aelodau'r cyhoedd.

Ceir rhestr lawn o'r ymatebwyr yn y tabl canlynol².

Ymatebwyr	
Agored Cymru	Diverse Cymru
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru	Estyn
The British Association of Teachers of the Deaf (BATOD)	Undeb Cenedlaethol yr Athrawon, Cymru
Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig	Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall (RNIB)
Canolfan Ymchwil i Gymunedau Ar-lein a Systemau E-Ddysgu	CBAC
Cymdeithas Ysgolion Dros Addysg Gymraeg	Di-enw

Er bod nifer yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein yn isel, mae'n bwysig nodi bod yr ymgynghoriad ffurfiol wedi dilyn ymgynghoriad anffurfiol helaeth arall gyda rheoleiddwyr cymwysterau'r DU, sefydliadau dyfarnu a chynrychiolwyr grwpiau anabledd (ar yr AAQAG ac ACF).

Rydym wedi pwysu a mesur yr ymatebion i'r ymgynghoriad hwn, a hefyd wedi trafod ag Ofqual yr ymatebion i'w hymgynghoriad nhw³.

Ceir crynodeb o ganran yr ymatebwyr a oedd yn cytuno â'n manylebau (a rhai Ofqual) yn y tabl canlynol.

² Roedd un ymatebwr wedi gofyn am gyfrinachedd.

³ Yr ymgynghoriad ar fanylebau ar gyfer addasiad rhesymol i gymwysterau cyffredinol, a gyhoeddwyd ar wefan Ofqual (www.ofqual.gov.uk).

Y canrannau a oedd yn cytuno â'r manylebau

Manyleb	Ofqual	Ll. Cym
Dylid defnyddio esemptiadau pan fydd popeth arall wedi methu	92	92
Faint o'r cymhwyster y gellir cael esemptiad ohono	74	67
Esemtiad o gydran gyfan yn unig	69	67
Ni ddylid addasu ffiniau gradd a/neu farciau pasio	87	92
Dim darllenwyr dynol pan fydd gallu i ddarllen yn cael ei asesu	74	75
Dim ysgrifenyddion na systemau adnabod llais pan fydd gallu i ysgrifennu yn cael ei asesu	50	50
Dim Iaith Arwyddion Prydain (BSL) pan fydd gallu i siarad neu wrando yn cael ei asesu	71	67
Dim cynorthwywyr ymarferol pan fydd sgiliau corfforol yn cael eu hasesu	80	83
Dim esemptiad o'r gofyniad opsiwn neu agweddau penodol o'r craidd yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru	Amh.	75

Mae'r tabl yn dangos bod cyfran uchel yn cytuno â rhan fwyaf y manylebau. Ceir hefyd cydberthyniad agos rhwng yr ymatebion yn Lloegr (62) ac yng Nghymru (12). Mae hyn yn galonogol oherwydd bod llawer o fanteision mewn mabwysiadu cyfres debyg o fanylebau ledled Cymru a Lloegr.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl ymatebion yn llawn ac wedi'u trafod â'r rheoleiddwyr cymwysterau eraill yn y DU.

Ymatebion i'r cynigion

Esemptiadau

Y sefyllfa bresennol

Esemptiad yw addasiad rhesymol a ddefnyddir pan fydd popeth arall wedi methu. Mae'n gytundeb a wneir gyda sefydliad dyfarnu sy'n golygu bod ymgeisydd anabl yn cael esemptiad o gydran (neu gydrannau) cymhwyster. Pan roddir esemptiad, ystyrir mai perfformiad yr ymgeisydd yn y cydrannau a gyflawnwyd yw ei berfformiad ar gyfer y cymhwyster cyfan.

Defnyddir esemptiad pan fydd popeth arall wedi methu oherwydd nid yw'n galluogi ymgeiswyr i arddangos yn llawn yr hyn y gallant ei gyflawni. Fodd bynnag, mae esemptiadau wedi cael eu defnyddio ers blyneddau lawer i alluogi ymgeiswyr anabl i ddilyn cymwysterau pan na fydd rhannau o'r cymhwyster yn hygyrch iddynt. Pan roddir esemptiad, nodir hynny ar dystysgrif yr ymgeisydd. Mae hyn yn sicrhau bod y cymhwyster yn rhoi darlun dibynadwy o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth yr ymgeisydd.

Cymeradwyir tua 100 esemptiad bob blwyddyn⁴ ar draws yr holl gymwysterau cyffredinol a ddyfernir gan sefydliadau dyfarnu'r Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ) yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Cynigion

Roedd ein manylebau arfaethedig wedi'u halinio'n agos â'r arferion presennol. Rydym am weld esemptiadau'n cael eu defnyddio dim ond pan nad yw addasiadau rhesymol eraill yn briodol. Rydym am gyfyngu ar faint o'r cymhwyster y gellir cael esemptiad ohono. Rydym hefyd am weld esemptiadau'n cael eu defnyddio ar gyfer cydrannau cyfan yn unig (yn hytrach na rhannau o gydrannau), os nad yw ymgeisydd yn gallu cael mynediad at unrhyw ran o'r gydran honno.

Manylebau

Esemptiadau pan fydd popeth arall wedi methu

Ni cheir defnyddio esemptiad fel addasiad rhesymol, heblaw mewn achosion lle nad oes unrhyw addasiad rhesymol arall yn briodol.

Faint o'r cymhwyster y gellir cael esemptiad ohono

Ni cheir defnyddio esemptiad fel addasiad rhesymol a fyddai'n golygu mwy na 50 y cant o'r marciau sydd ar gael (wedi'u pwysoli) ar gyfer cymhwyster. Gyda lefel A, dylid cwblhau o leiaf un uned A2. Gyda phrif ddysgu, mae 50 y cant o'r cymhwyster gyfwerth â 50 y cant o'r oriau dysgu dan arweiniad.

⁴ Mae mwyafrif helaeth y rhain ar gyfer cymwysterau TGAU.

Esemptiad o gydran gyfan

Ni ddylid defnyddio esemptiad o ran o gydran fel addasiad rhesymol.

Dim ond pan fydd ymgeisydd yn methu cael mynediad at unrhyw ran o'r gydran honno y dylid caniatáu esemptiad ar gyfer y gydran gyfan.

Mae caniatáu esemptiadau'n lleihau'r anfantais i ymgeiswyr anabl. Mae pennu cyfyngiadau penodol ar y defnydd a wneir ohonynt yn cynnal ffydd y cyhoedd ac yn helpu i sicrhau bod y cymwysterau yn rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a phrofiad ymgeiswyr.

Mae grwpiau anabledd yn parhau i ddadlau dros gymwysterau mwy cynhwysol fel bod yr angen am esemptiadau'n lleihau fwy fyth.

Mae esemptiadau'n amhoblogaidd gyda llawer o randdeiliaid oherwydd nad ydynt yn galluogi dysgwyr anabl i ddangos yn llawn yr hyn maent yn ei wybod, yn ei ddeall ac yn gallu ei wneud. Nod y rheoleiddwyr hefyd yw cael llai o esemptiadau: Mae Llywodraeth Cymru wedi arwain ar gynhyrchu *Mynediad teg drwy gynllunio: canllawiau i reoleiddwyr cymwysterau a chyrff dyfarnu ar gynllunio cymwysterau cynhwysol*. Ceir copi o'r ddogfen [yma](#). Fodd bynnag, hyd nes y bydd cymwysterau hollol gynhwysol ar gael, mae esemptiadau'n parhau i fod yn ddull pwysig o gael mynediad at y cymwysterau i'r nifer fechan o ddysgwyr nad yw addasiadau rhesymol eraill yn briodol iddynt.

Tra bod gosod unrhyw fath o gyfyngiad ar ddefnyddio esemptiadau'n ymddangos fel y gallai roi ymgeiswyr anabl dan anfantais, mae rhanddeiliaid yn cytuno na ddylid defnyddio esemptiadau oni bai bod popeth arall wedi methu. Ategir hyn yng nghanlyniadau ein hymgyngoriad ar-lein a'r lefel a oedd yn cytuno (92 y cant).

Gwnaeth yr ymatebwyr lawer o sylwadau'n cefnogi'r cynnig hwn. Dywedodd Agored Cymru, 'Dim ond pan na fydd yr un addasiad rhesymol arall yn addas, y dylid rhoi esemptiad i ymgeiswyr...' Atebodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, 'Er mwyn cynnal hygredd y cymhwyster a hyder y cyhoedd ynddo, rydym yn cytuno mai dim ond pan fydd popeth arall wedi methu y dylid defnyddio esemptiadau'. Pwysleisiodd BATOD gyfyngiadau esemptiadau, 'Byddai'n well petai cynllun y cymhwyster yn golygu nad oedd angen esemptiad' ond cydnabu '...nad yw hyn yn bosibl ym mhob achos felly esemptiad yw'r ateb'. Atebodd Diverse Cymru yn yr un modd, 'Ar y cyfan, rydym yn cytuno y dylid defnyddio addasiadau priodol eraill lle bynnag y bo'n bosibl yn hytrach nag esemptiadau'.

Ar ôl trafod y mater hwn yng nghyfarfodydd yr ACF ac AAQAG ar ôl yr ymgynghoriad, rydym yn cynnig na ddylid newid y fanyleb hon.

Roedd yr ymateb cyffredinol i'n cynigion ar faint o'r cymhwyster y gellir cael esemptiad ohono yn gadarnhaol (67 y cant) ond roedd y sylwadau'n dangos cryn bryder am y terfyn a gynigwyd.

Gwnaeth Diverse Cymru y sylw '...o gofio bod gofynion mynediad pob unigolyn anabl yn amrywio'n sylweddol, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i beidio â

gwneud unrhyw reolau absoliwt ynghylch faint o'r cymhwyster y gallai'r ymgeisydd gael esemptiad ohono neu'r amgylchiadau lle na ellid defnyddio esemptiadau'. Yn yr un modd, atebodd NUT Cymru, 'Nid yw'n ymddangos yn rhesymol i osod uchafswm o ran hawl ymgeisydd i esemptiad. Os yw'r rheswm dros esemptiad yn cael ei dderbyn, nid yw'n ymddangos yn gyson i ddweud wedyn na ddylid caniatáu esemptiad os yw'n cyfrannu at 51 y cant o gwrs, ond y dylid ei ganiatáu os yw'n cyfrannu at 50 y cant'.

Serch hynny, roedd llawer o'r ymatebwyr wedi cyflwyno safbwynt gwahanol. Ymateb RNIB oedd 'Ar y sail nad yw esemptiadau'n ddymunol yn y lle cyntaf, mae RNIB o'r farn y dylid eu defnyddio ar gyfer cyn lleied o gymhwyster â phosibl. Mae rhoi esemptiad i ymgeisydd ar gyfer dros 50 y cant yn tanseilio ffydd y cyhoedd ac nid yw'n rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yr ymgeisydd'.

Roedd y Ganolfan Ymchwil i Gymunedau Ar-lein a Systemau E-Ddysgu yn teimlo 'Y dylid defnyddio asesiad arall yn hytrach nag esemptiadau'. Ymateb Agored Cymru oedd bod '50 y cant yn ymddangos yn ormodol ac y gallai danseilio dilysrwydd y cymhwyster wrth ddarparu darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a phrofiad y dysgwr'.

Mynegwyd barn debyg gan CBAC, 'Er mwyn cynnal ffydd y cyhoedd mewn cymwysterau cyhoeddus, dylid cadw'r canran o dan 50 y cant. ...Byddai'n well gan CBAC weld ymgeiswyr yn cwblhau o leiaf un uned A2, ond gellid cyfiawnhau gostwng y ganran o 50 y cant i 40 y cant. Hynny yw, ni ddylid defnyddio esemptiad fel addasiad rhesymol pe byddai'n golygu mwy na 40 y cant o'r marciau sydd ar gael (wedi'u pwysoli) ar gyfer cymhwyster. Gellid tybio bod 50 y cant, sef y ganran bresennol, yn rhy uchel ac efallai bod 40 y cant yn fwy realistig ac yn decach i ymgeiswyr'.

Ceir gwahaniaeth barn glir yn y detholiad hwn o sylwadau, ond mae'n ymddangos bod consensws cyffredinol y byddai caniatáu i berson anabl ennill cymhwyster, os ydyw wedi cael ei eithrio rhag dros hanner ohono, yn effeithio ar ffydd y cyhoedd. Hefyd, gallai effeithio ar werth ymddangosiadol y cymhwyster a gyflawnwyd gan y person anabl.

Rydym wedi ystyried yr ymateb i'n hymgyngoriad ac wedi trafod ag Ofqual yr ymateb i'r ymgynghoriad yn Lloegr, yn cynnwys y digwyddiad ymgynghoriad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf. Mae Llywodraeth Cymru ac Ofqual yn cytuno y byddai lleihau uchafswm y cymhwyster y gellid cael esemptiad ohono, o 50 y cant i 40 y cant, yn helpu i 'sicrhau bod y cymhwyster yn rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth' ac yn 'cynnal ffydd y cyhoedd yn y cymhwyster'.

Bydd geiriad y fanyleb ddiwygiedig fel a ganlyn. Bellach, nid oes angen pennu y dylid cwblhau o leiaf un uned A2 yn Safon Uwch. Roedd angen cynnwys y cyfyngiad hwn yn y cynigion drafft er mwyn atal ymgeiswyr rhag gwneud cais am esemptiad o'r holl unedau A2 o fewn y terfyn 50 y cant.

Faint o'r cymhwyster y gellir cael esemptiad ohono

Ni cheir defnyddio esemptiad fel addasiad rhesymol a fyddai'n golygu mwy na **40 y cant** o'r marciau sydd ar gael (wedi'u pwysoli) ar gyfer cymhwyster.

Gyda phrif ddysgu, mae **40 y cant** o'r cymhwyster gyfwerth â **40 y cant** o'r oriau dysgu dan arweiniad.

Yn ymarferol, ni fydd y newid hwn yn effeithio llawer ar ddysgwyr anabl y mae angen esemptiadau arnynt. Mae bron pob cais am esemptiad ar gyfer un gydran/uned yn unig, a phur anaml y mae'r rhain yn fwy na 40 y cant o'r cymhwyster. Er enghraifft, mae llawer o gymwysterau TGAU wedi'u pwysoli 40:60 rhwng yr asesiad allanol a'r cydrannau asesiad dan reolaeth. Dan y fanyleb ddiwygiedig hon, bydd dysgwyr yn parhau i allu gwneud cais am esemptiad o'r cydrannau sy'n cael eu hasesu'n allanol. Fodd bynnag, ni fyddant yn gallu cael esemptiad o'r asesiad dan reolaeth (sy'n werth 60 y cant), ond byddai hynny hefyd yn wir gydag esemptiad ag uchafswm 50 y cant.

Cafwyd cefnogaeth gyffredinol (67 y cant) i'r cynnig y dylid glynu wrth y drefn bresennol o roi esemptiadau ar gyfer cydrannau cyfan yn unig (yn hytrach na rhannau o gydran) os nad yw ymgeisydd yn gallu cael mynediad i unrhyw ran o'r gydran honno. Fodd bynnag, awgrymodd rhai ymatebwyr y dylid caniatáu esemptiad o ran o gydran. Gan gydnabod yr anawsterau, gwnaeth BATOD y sylw, 'Er y byddai'n anodd yn ymarferol, byddai'n well rhoi esemptiad i'r rhannau hynny o gydran nad yw ymgeisydd yn gallu cael mynediad atynt yn unig'. Gwnaeth RNIB y pwynt, 'Ceir cytundeb cyffredinol nad yw esemptiadau'n ddymunol, felly mae mynnu bod rhaid eu defnyddio ar gyfer mwy o gymhwyster, yn hytrach na llai, yn ymddangos yn afresymol'.

Roedd eraill yn cytuno bod y trefniadau presennol yn addas. Dywedodd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig, 'Rydym yn cytuno mai dim ond ar gyfer cydrannau cyfan y dylid defnyddio esemptiadau. Byddem yn hoffi gweld darpariaeth, efallai mewn canllawiau dilynol, pan fo ymgeisydd yn cael anhawster gydag elfen o gydran, y dylid ystyried addasiadau rhesymol eraill'. Atebodd CBAC, '**Rhaid** i ymgeisydd gael esemptiad o uned gyfan yn unig'.

Er ei fod yn bosibl y byddai rhai ymgeiswyr anabl yn ceisio cael esemptiad o ran o gydran petai'r dewis hwnnw ar gael iddynt, byddai perygl y gallai esemptiadau ddod yn addasiad rhesymol mwy prif ffrwd, yn hytrach na'r dewis olaf pan nad oes unrhyw addasiad rhesymol arall yn briodol.

At hynny, byddai'n gymhleth iawn i sefydliadau dyfarnu weithredu'r ychwanegiadau a'r dynodiadau ar dystysgrifau ar gyfer yr holl amgylchiadau posibl sydd ynghlwm wrth 'esemptiad rhannol'. Heb ychwanegiad, gallai'r dysgwr anabl wynebu anfantais; heb ddynodiadau ar y dystysgrif, gallai ffydd y cyhoedd yn y cymhwyster leihau.

Ar ôl trafod y mater hwn yng nghyfarfodydd yr ACF a'r AAQAG ar ôl yr ymgynghoriad, nid ydym yn cynnig unrhyw newidiadau.

Camau nesaf

Rydym yn mynd i lunio'r fanyleb ynghylch defnyddio 'esemptiadau pan fydd popeth arall wedi methu' fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori. Yn y fanyleb ynghylch 'faint o'r cymhwyster y gellir cael esemptiad ohono', dylid tynnu sylw at natur orfodol y fanyleb a dileu'r ddau gyfeiriad at 'dylid'. Felly, bydd geiriad y fanyleb ddiwygiedig fel a ganlyn. 'Ni cheir defnyddio esemptiad ar gyfer rhan o gydran fel addasiad rhesymol. Dim ond pan fydd ymgeisydd yn methu cael mynediad at unrhyw ran o'r gydran honno y ceir caniatáu esemptiadau ar gyfer y gydran gyfan'. Byddwn hefyd yn addasu'r fanyleb ynghylch 'faint o'r cymhwyster y gellir cael esemptiad ohono' i adlewyrchu'r uchafswm o 40 y cant a drafodwyd uchod.

Byddwn yn adolygu meini prawf cymwysterau (e.e. meini prawf TGAU a meini prawf TAG) o safbwynt hygyrchedd a chynhwysiant, yn unol â'r adolygiadau a gynlluniwyd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn y dyfodol. Gobeithiwn, drwy wneud y cymwysterau yn fwy hygyrch, y bydd yr angen i gael esemptiadau yn lleihau dros amser. Tan hynny, byddwn yn caniatáu esemptiadau mewn cymwysterau cyffredinol, yn amodol ar y manylebau a wnaethpwyd uchod.

Marciau pasio a ffiniau gradd

Y sefyllfa bresennol

Mae ffiniau gradd a marciau pasio yr un peth ar gyfer ymgeiswyr anabl ag ymgeiswyr nad ydynt yn anabl.

Pan ganiateir esemptiadau, mae ymgeiswyr yn cael eu marcio allan o 100 y cant ar gyfer y cydrannau a gwblhawyd ganddynt. Felly, maent yn dal i wynebu'r un ffiniau gradd a marciau pasio.

Cynnig

Nid ydym yn cynnig unrhyw newid i'r trefniadau presennol.

Manyleb

Ffiniau gradd neu farciau pasio

Ni ddylid ei gwneud hi'n ddyletswydd ar gyrff dyfarnu i wneud addasiad rhesymol i ffiniau gradd a/neu farciau pasio ar gyfer ymgeiswyr anabl.

Bydd pennu nad oes dyletswydd ar sefydliadau dyfarnu i wneud addasiadau rhesymol i ffiniau gradd a/neu farciau pasio yn helpu i gynnal ffydd y cyhoedd yn ogystal â sicrhau bod y cymwysterau yn rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a phrofiad yr ymgeisydd. Nid yw'r dull hwn yn rhoi mantais i ymgeiswyr anabl nac yn eu rhoi o dan anfantais.

Ar yr olwg gyntaf, gellid tybio y gallai gostwng marciau pasio neu bwyntiau gradd ar gyfer dysgwyr anabl helpu i leihau'r anawsterau a wynebant, ond mae'r agwedd hon yn frith o broblemau sylweddol. Er enghraifft, byddai'n anodd

penderfynu'n union faint y dylid addasu'r marciau neu'r pwyntiau gradd fel bod y dysgwr anabl yn cael ei drin yn deg ond nad yw'n cael mantais oherwydd yr addasiad o'i gymharu â dysgwyr eraill.

Yn bwysicach, caiff cymwysterau cyffredinol eu hasesu yn erbyn meini prawf penodol. Er enghraifft, mae meini prawf pwnc ar gyfer TGAU yn cynnwys disgrifiad o wybodaeth, dealltwriaeth a gallu ymgeisydd sy'n cyflawni gradd A. Ni fyddai ymgeisydd anabl sy'n ennill gradd A am rywbeth sy'n is na throthwy'r radd yn arddangos yn llawn y nodweddion sy'n gysylltiedig â'r radd. Byddai hyn yn diraddio gwerth y radd i'r ymgeisydd ac yn effeithio ar ffydd y cyhoedd yn y cymhwyster.

Fel y nodwyd uchod, mae grwpiau anabledd am weld cymwysterau mor gynhwysol â phosibl fel eu bod yn fwy agored i ymgeiswyr anabl. Fodd bynnag, nid yw grwpiau anabledd wedi dadlau dros amrywio'r marciau pasio, naill ai fel cam dros dro neu hirdymor. Profir hyn gan y gyfran uchel iawn yn ein hymgyngoriad ar-lein a oedd yn cytuno (92 y cant).

Roedd Diverse Cymru yn cytuno â'r fanyleb ond roeddent hefyd yn awgrymu y gallai rhai sefyllfaoedd godi lle y byddai'n briodol i amrywio ffiniau graddau. '...ceir rhai amgylchiadau cyfyngedig lle y gallai fod yn briodol i addasu ffin gradd. Byddai hyn yn berthnasol lle na fyddai addasiadau yn gallu gwneud iawn am yr anfantais a wynebier gan yr ymgeisydd, a bod y gwahaniaeth yn ei berfformiad a aseswyd yn amlwg yn deillio o effeithiau'r nam sydd ganddo'. Fodd bynnag, barn y lleiafrif yn unig oedd hon o blith yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

Ymateb Estyn oedd (bod cadw ffiniau gradd a marciau pasio yr un peth) '...yn allweddol i gynnal hyder y cyhoedd ac i sicrhau bod cymwysterau yn rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a phrofiad yr ymgeisydd'. Dywedodd Agored Cymru, 'Dylai pob dysgwr gael ei feincnodi'n gyson er mwyn osgoi unrhyw arfer gwahaniaethol ac i warchod hygredd y cymhwyster'. Cyfeiriodd BATOD at bwrpas addasiadau rhesymol yn eu ymateb, 'Mae addasiadau rhesymol yn galluogi'r ymgeisydd i gael mynediad i'r cymhwyster ar yr un sail ag ymgeiswyr eraill ac felly byddai unrhyw wahaniaeth mewn ffiniau gradd yn hollol amhriodol'. Gwnaeth CBAC bwynt tebyg, 'Mae trefniadau mynediad yn bodoli i sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn cael eu trin yn gyfartal. O ganlyniad, nid oes gofyn amrywio ffiniau graddau'. Dywedodd RNIB, 'Byddai newid ffiniau graddau a marciau pasio ar gyfer ymgeiswyr anabl yn tanseilio pob un o'r tair egwyddor a restrwyd ar dudalen 4 y ddogfen ymgynghori. Mae RNIB yn daer yn erbyn mabwysiadu'r dull hwn'.

Ar ôl darparu addasiad(au) rhesymol priodol er mwyn helpu i sicrhau bod ymgeiswyr anabl wedi cael y cyfle tecaf posibl i ddangos eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u gallu, dylai'r radd a roddir adlewyrchu eu profiad yn gywir yn erbyn meini prawf asesu'r cymhwyster dan sylw. Felly, rhoddir yr un gwerth i'r canlyniad â chanlyniad ymgeisydd nad yw'n anabl.

Camau nesaf

Rydym am lunio'r fanyleb ynghylch 'ffiniau gradd neu farciau pasio' fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori gydag un newid. Er mwyn tynnu sylw at natur orfodol

y fanyleb, dylid dileu ‘Ni ddylid ei gwneud hi’n ddyletswydd ...’ a rhoi ‘Nid oes dyletswydd ...’ yn ei le. Byddwn yn monitro’r sefyllfa ac yn nodi unrhyw adborth ynghylch yr addasiad rhesymol hwn.

Darllenwyr

Y sefyllfa bresennol

Defnyddir darllenwyr pan nad yw ymgeiswyr â nam ar eu golwg yn gallu defnyddio papurau Braille neu bapurau sydd wedi’u haddasu/chwyddo. Gall darllenwyr fod yn ddarllenwyr dynol neu’n ddarllenwyr cyfrifiadur/sgrin, y cyfan yn darllen deunyddiau asesu ysgrifenedig.

Gellir defnyddio darllenwyr dynol a darllenwyr cyfrifiadur/sgrin fel addasiad rhesymol os nad yw gallu’r ymgeisydd i ddarllen yn cael ei asesu.

Fodd bynnag, pan fydd y gallu i ddarllen yn cael ei asesu – er enghraifft yng nghydrannau darllen TGAU Saesneg – ni chaniateir darllenwyr. Golyga hyn, pan nad yw ymgeiswyr â nam ar eu golwg yn gallu defnyddio Braille, print mwy neu brint mwy wedi’i addasu, y defnyddir esemptiadau ar gyfer cydrannau darllen cymwysterau megis TGAU Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern.

Fel y nodwyd ar dudalen 7, defnyddir esemptiadau pan fo popeth arall wedi methu a phan nad oes unrhyw addasiad rhesymol arall yn briodol. Hoffem wneud y cymwysterau hyn yn fwy cynhwysol, er mwyn lleihau’r angen am esemptiadau.

Cynigion

Hoffem lacio’r cyfyngiadau presennol ond hefyd gwarchod hygrededd a dibynadwyedd y cymhwyster.

Manyleb

Darllenwyr

Ni ddylid defnyddio darllenwyr dynol fel addasiad rhesymol pan fydd gallu’r ymgeisydd i ddarllen yn cael ei asesu.
--

Mewn amgylchedd gwaith ac ystafell ddosbarth bob dydd, gall dysgwyr â nam ar eu golwg ddefnyddio technolegau cymorth, megis darllenwyr sgrin, i ddilyn testun ysgrifenedig. Rydym am sicrhau bod asesiadau’n gyson â’r ‘byd go-iawn’ ar yr amod nad yw’n tanseilio amcanion yr asesiad.

Ar hyn o bryd, wrth asesu gallu’r ymgeisydd i ddarllen, mae darllenwyr dynol a thechnolegau cymorth yn cael eu trin yr un fath – nid oes hawl eu defnyddio. Fodd bynnag, mae gwahaniaethau pwysig rhyngddynt.

- Nid yw technolegau cymorth a darllenwyr dynol yn dehongli testun yr un fath. Mae darllenwyr dynol yn gallu ychwanegu haenen o ddehongli geiriol (arlliw ac ystyr), a allai effeithio ar ymateb yr ymgeisydd, a thrwy

hynny, peryglu dibynadwydd y cymhwyster.

- Mae technolegau cymorth yn caniatáu ar gyfer annibyniaeth, yn wahanol i ddarllenwydd dynol.

Mae'r fanyleb a gynigwn yn ystyried y gwahaniaethau hyn. Rydym am ganiatáu defnyddio technolegau cymorth megis darllenwyr cyfrifiadur/sgrin mewn asesiadau darllen – yn wahanol i'r sefyllfa bresennol – ond parhau â'r arfer cyfredol o beidio â chaniatáu darllenwyr dynol mewn asesiadau o'r fath.

Bydd caniatáu defnyddio technolegau cymorth yn lleihau'r graddau y mae ymgeiswyr anabl dan anfantais. Er enghraifft, bydd ymgeiswyr â nam ar eu golwg nad ydynt yn gallu defnyddio papurau wedi'u haddasu na Braille yn gallu defnyddio darllenwydd cyfrifiadur/sgrin i arddangos eu sgiliau, yn hytrach na gorfod gwneud cais am esemptiad o'r gydran ddarllen.

Ni ddylai fod goblygiadau cost sylweddol ynghlwm wrth y cynigion hyn. Mae dysgwyr â nam ar eu golwg yn defnyddio'r technolegau cymorth hyn eisoes, yn yr ystafell ddosbarth ac mewn cymwysterau nad ydynt yn asesu'r darllen. Yr unig ddatblygiad newydd yw ehangu eu defnydd i gymwysterau sydd yn asesu darllen, felly ni ddylai fod angen prynu dim byd ychwanegol.

Drwy beidio â chaniatáu darllenwyr dynol mewn asesiadau darllen, mae ein cynnig yn ceisio sicrhau bod y cymwysterau'n parhau i roi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth ymgeiswyr. Mae rhanddeiliaid yn cydnabod yr anawsterau o roi credyd i ymgeisydd am 'ddarllen' pan fo rhywun arall wedi cyflawni'r broses honno.

Yn yr ymgynghoriad ar-lein, roedd 75 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r fanyleb hon.

Atebodd CBAC, 'Mewn arholiad darllen TGAU Saesneg neu Iaith Dramor Fodern, a luniwyd i brofi gallu'r ymgeisydd i ddarllen, ni ddylid defnyddio darllenwr dynol. Serch hynny, rydym yn argymhell addasiadau rhesymol eraill megis defnyddio darllenwr cyfrifiadur/sgrin neu bin darllen'.

Hefyd, tynnodd CBAC sylw at oblygiad posibl ar adnoddau yn sgil ein cynigion. 'Mae darllenwyr cyfrifiadur yn cael eu defnyddio'n gyffredin mewn unedau/ysgolion gyda disgyblion â nam ar eu golwg. Os yw ymgeisydd dall/gyda nam sylweddol ar ei olwg, nad yw'n gallu darllen Braille na phapur wedi'i addasu a'i chwyddo yn annibynnol, yn cael defnyddio darllenwr cyfrifiadur/sgrin mewn papur sy'n profi'r gallu i ddarllen, ni fydd angen cael esemptiad. Mae hefyd yn adlewyrchu ei ffordd arferol o weithio. Ni fyddai ysgolion y wladwriaeth yn gallu rheoli galw sydyn am ddarllenwyr cyfrifiadur, naill ai ar gyfer ymgeiswyr ag anawsterau dysgu neu â nam ar eu clyw'. Mae adnoddau'n fater pwysig, ond mae y tu allan i gylch gwaith pwerau'r rheoleiddwyr dan adran 96 o'r Ddeddf Cydraddoldeb.

Roedd Estyn yn cytuno â'r cynnig, 'Defnyddio technolegau cymorth yw'r ffordd ymlaen...' ond, fel CBAC, gwnaethant godi mater adnoddau, '...bydd ei lwyddiant yn dibynnu ar argaeledd darllenwyr cyfrifiadur/sgrin o ansawdd uchel

yn yr holl ieithoedd sy'n cael eu hasesu'. Hefyd, cododd Estyn fater posibl a allai arwain at anfantais, 'gallai defnyddio darllenwyr cyfrifiadur/sgrin hefyd roi ymgeiswyr dan anfantais os nad ydynt wedi bod yn eu defnyddio'n feunyddiol mewn amgylchedd gwaith ac ystafell ddosbarth'. Fodd bynnag, rydym yn rhagweld y bydd ceisiadau am yr addasiad rhesymol hwn yn adlewyrchu ffordd arferol yr ymgeiswyr o weithio.

Roedd CYDAG yn cytuno â'r cynnig, ond gwnaethant hwyhau hefyd godi'r mater adnoddau. 'Cytunir yn llwyr gyda'r cynnig na ddylid defnyddio darllenwr dynol. Fodd bynnag, a oes posibilid y gallai fod amrywiaeth mewn ansawdd a pherfformiad gwahanol fathau o dechnolegau cymorth a allai gyflwyno elfen o danseilio dibynadwyedd yr asesiad'⁵.

Dywedodd Agored Cymru, 'Nid yw'n briodol defnyddio cymhorthion sy'n peryglu dibynadwyedd cymhwyster yr unigolyn fel prawf o'i alluoedd. Mae'n bosibl y byddai darllenwyr dynol yn tarfu ar annibyniaeth perfformiad y dysgwyr. Mae'n haws rheoli technolegau cymorth, megis darllenwr cyfrifiadur/sgrin'. Roedd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig hefyd yn cytuno â'r cynnig, gan ddatgan, 'At ei gilydd, mae'r cynnig hwn yn ymddangos i ni fel ei fod yn gynhwysol ei natur a hefyd yn cefnogi hygyrddedd yr asesiad dan sylw. Rydym yn croesawu cam sy'n galluogi rhai ymgeiswyr i arddangos eu sgiliau yn hytrach na gwneud cais am esemptiad'.

Roedd rhai rhanddeiliaid yn arddel barn llai cadarnhaol am ein cynnig i ehangu defnydd technolegau cymorth priodol i gymwysterau sy'n asesu darllen. A hwythau o bosibl yn arddel syniadau culach ynghylch beth yw 'darllen', nid oedd rhai ohonynt am weld technolegau cymorth yn cael eu caniatáu dan yr amgylchiadau a ddisgrifiwyd uchod. Roeddent yn teimlo y byddai'r cymhwyster yn cael ei ddiraddio.

Mae'n bwysig cofio mai dim ond mewn cymwysterau sy'n profi gallu i ddarllen y mae'r materion hyn yn berthnasol. Nid ydym wedi cael dim adborth sy'n awgrymu na ddylid caniatáu darllenwyr mewn cymwysterau nad ydynt yn profi gallu i ddarllen yn benodol.

Er ein bod yn cyfaddef y gallai adnoddau fod yn broblem (fel y nodwyd gan sawl ymatebydd), rydym o'r farn na ddylai hyn fod yn rheswm dros atal defnyddio technolegau cymorth yn gyffredinol.

Camau nesaf

Rydym am lunio manyleb yn ymwneud â 'darllenwyr' fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori gydag un newid. Er mwyn tynnu sylw at natur orfodol y fanyleb, dylid dileu 'Ni ddylid...' a rhoi 'Ni cheir....' yn ei le. Byddwn yn adolygu meini prawf cymwysterau a phynciau lle caiff gallu i ddarllen ei asesu, yn unol â'r adolygiadau a gynlluniwyd ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn y dyfodol. Ein nod fydd egluro beth a olygir wrth 'darllen' - e.e. ai dehongli'r gair ysgrifenedig ydyw, neu a yw'n fwy eang na hynny? Yna, byddwn yn ailystyried y fanyleb hon i weld a yw'n briodol o hyd.

⁵ Cyflwynwyd yr ateb yn Gymraeg.

Ysgrifenyddion a thechnolegau adnabod llais

Y sefyllfa bresennol

Caiff ysgrifenyddion a thechnolegau cymorth, megis systemau adnabod llais, eu defnyddio pan nad yw ymgeiswyr yn gallu ysgrifennu neu deipio ar brosesydd geiriau. Mae ysgrifenyddion yn ysgrifennu neu'n teipio atebion yr ymgeisydd. Mae systemau adnabod llais yn cynhyrchu copi caled pan fydd ymgeisydd yn llefaru i gyfrifiadur.

Ar gyfer y rhan fwyaf o gymwysterau, mae defnyddio ysgrifenyddion a systemau adnabod llais yn addasiad rhesymol priodol. Fodd bynnag, pan fydd cymwysterau'n asesu'n benodol y gallu i ysgrifennu, megis cymwysterau TGAU Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern, mae defnyddio ysgrifenyddion neu systemau adnabod llais yn gallu cael effaith uniongyrchol ar amcanion asesu'r cymhwyster.

Gallai defnyddio'r addasiadau rhesymol hyn danseilio amcanion asesu sy'n ymwneud â sillafu ac atalnodi mewn cydrannau ysgrifenedig Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern, a hefyd amcanion asesu cywirdeb ieithyddol o fewn cydrannau ysgrifenedig iaith dramor fodern.

Mae'r trefniadau presennol wedi'u rhestru isod.

- Caniateir defnyddio ysgrifenyddion a systemau adnabod llais dim ond pan na all ymgeisydd ddefnyddio addasiad rhesymol arall a fyddai'n ei alluogi i arddangos ei sgiliau ysgrifenedig yn fwy cyflawn, megis teipio neu Braille.
- Caniateir ysgrifenyddion mewn asesiadau ysgrifennu Cymraeg a Saesneg, ond nid yw marciau a ddyfernir ar gyfer sillafu ac atalnodi ar gael i ymgeiswyr pan fydd testun wedi'i gofnodi gan yr ysgrifennydd.
- Caniateir ysgrifenyddion mewn cymwysterau pan fydd gallu ymgeisydd i ysgrifennu mewn iaith dramor fodern yn cael ei asesu, ond dim ond pan fydd yr ymgeisydd yn gallu sillafu pob gair, un llythyren ar y tro. Mae hyn yn sicrhau mai sgiliau cywirdeb iaith yr ymgeisydd, nid yr ysgrifennydd, sy'n cael eu hasesu.
- Ar hyn o bryd, ni chaniateir technoleg adnabod llais mewn asesiadau ysgrifennu TGAU Cymraeg na TGAU Saesneg oherwydd yr anhawster o sillafu geiriau drwy gyfrwng technoleg sydd yn cynhyrchu geiriau'n awtomatig.

Cynigion

Mae defnyddio ysgrifenyddion (neu'r dechnoleg sy'n cyfateb i hynny), heb gyfyngu ar y defnydd hwnnw, yn gallu dylanwadu ar allu ymgeisydd i ddangos ei sgiliau yng nghyswllt cywirdeb iaith, sillafu ac atalnodi. Os nad yw ymgeisydd wedi dangos bod ganddo sgil benodol, gallai dyfarnu marciau am y sgil honno danseilio ffydd y cyhoedd yn y cymhwyster hwnnw.

Felly, gwnaethom gynnig manyleb i'r perwyl na ddylid defnyddio ysgrifenyddion na meddalwedd sy'n gweithio â llais mewn ffordd sy'n tanseilio amcanion yr asesiad. Ni fyddai hyn yn cyfyngu ar sut caiff ysgrifenyddion neu dechnolegau adnabod llais eu defnyddio mewn cymwysterau nad ydynt yn asesu gallu ymgeisydd i ysgrifennu.

Manyleb

Ysgrifenyddion ac adnabod llais

Ni ddylid defnyddio ysgrifenyddion a systemau adnabod llais fel addasiad rhesymol pan fydd gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu yn cael ei asesu.

Nid yw'r fanyleb hon yn effeithio ar ymgeiswyr anabl sy'n dilyn cymwysterau nad ydynt yn asesu gallu i ysgrifennu. Er enghraifft, mewn asesiad TGAU dylunio a thechnoleg, gellid defnyddio system adnabod llais neu ysgrifennydd fel addasiad rhesymol oherwydd nad yw gallu ymgeisydd i ysgrifennu yn ffurfio rhan o amcanion yr asesiad.

Fodd bynnag, mewn asesiad ysgrifennu TGAU Ffrangeg, ni ddylid defnyddio system adnabod llais oherwydd byddai'n cynhyrchu geiriau heb alluogi'r ymgeisydd i arddangos ei allu ei hun i ysgrifennu Ffrangeg yn gywir. Nid yw hyn yn golygu nad oes gan yr ymgeisydd fynediad i'r cymhwyster hwn.

Fel addasiad rhesymol arall, gallai ymgeisydd lefaru atebion i beiriant recordio yn ystod yr asesiad. Yna, gallent ail-redeg y recordiad, gan sillafu geiriau unigol i ysgrifennydd. Mae hon yn broses hirfaith, ond mae'n galluogi'r ymgeisydd i ddangos ei allu, ei sgiliau a'i ddealltwriaeth yn llawn.

Yn amlwg, byddai angen digon o amser ac egwylliau ar yr ymgeisydd os yw'n sillafu geiriau unigol i ysgrifennydd. Fodd bynnag, gan y bydd yr ymgeisydd wedi cwblhau elfen yr asesiad sy'n cael ei hamseru, gellid cwblhau'r broses drawsysgrifio o recordiad llais i eiriau ysgrifenedig ar gyflymder priodol.

Ym maes defnyddio technolegau adnabod llais ac ysgrifenyddion y gwelwyd y lefel isaf o gytundeb â'n manylebau yn yr ymgynghoriad ar-lein. Tra bod union hanner yr ymatebwyr (6 o'r 12) yn cytuno â'n cynigion, rhoddodd ddau arall ateb niwtral ac roedd pedwar yn anghytuno.

Cafwyd ymateb cadarnhaol gan Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig. 'Rydym yn cytuno na ddylid defnyddio ysgrifenyddion na systemau adnabod llais wrth asesu gallu ysgrifennu. Byddai gwneud hynny'n tanseilio hyder yn y cymhwyster. Rydym hefyd yn cytuno na ddylai hyn gyfyngu ar ddefnydd ysgrifenyddion neu systemau adnabod llais pan nad yw gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu'n cael ei asesu'.

Mynegodd Diverse Cymru bryderon am ein cynigion. 'Rydym yn deall yr amharodrwydd i ganiatáu defnyddio ysgrifenyddion pan fydd gallu ysgrifennu'n rhan o amcanion yr asesiad, ond teimlwn y dylid cael trefniadau eraill ar gyfer caniatáu esemptiadau o farciau ar gyfer sillafu a gramadeg a chaniatáu defnyddio ysgrifenyddion wrth brofi gallu ysgrifennu'.

Mae'r Ganolfan Ymchwil i Gymunedau Ar-lein a Systemau E-Ddysgu yn awgrymu, '...yn ei hanfod, dylai'r asesiad ar ysgrifennu adlewyrchu sut byddai'r person anabl fel arfer yn 'ysgrifennu' wrth fyw'n annibynnol'. Nododd yr RNIB bwysigrwydd cysondeb ar draws manylebau tebyg. 'Mae'r mater hwn yn llai pwysig i ddysgwyr â nam ar eu golwg na defnyddio darllenwyr. Fodd bynnag, o ddefnyddio rhesymeg, credwn y dylai'r cynnig i alluogi defnyddio cyfrifiaduron i fodloni'r diffiniad o ddarllen yn annibynnol hefyd gyfateb â threfniant tebyg ar gyfer ysgrifennu'n annibynnol'.

Pwysleisiodd CBAC bwysigrwydd peidio â thanseilio'r cymhwyster. 'Byddai CBAC yn gefnogol iawn i'r egwyddor na ddylid defnyddio ysgrifenyddion na meddalwedd sy'n gweithio â llais mewn ffordd sy'n tanseilio amcanion yr asesiad... Mewn papurau ysgrifenedig TGAU a TAG ieithoedd tramor modern, mae gofyn i ymgeiswyr sillafu pob gair tramor un llythyren ar y tro. Byddai meddalwedd cyfrifiadurol yn achub y blaen ar y broses hon ac yn cwblhau'r geiriau cyfan'.

Camau nesaf

Rydym am lunio manyleb ynghylch 'ysgrifenyddion a meddalwedd adnabod llais' fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori gyda mân newidiadau. Er mwyn tynnu sylw at natur orfodol y fanyleb, dylid dileu 'Ni ddylid...' a rhoi 'Ni cheir....' yn ei le. Er mwyn cyd-fynd â'r fanyleb ar ddarllenwyr, caiff 'dynol' ei gynnwys ar ôl y term 'ysgrifennydd'. Er mwyn galluogi defnyddio ysgrifenyddion pan wneir trefniadau ychwanegol (e.e. llefaru a recordio, fel yr amlinellwyd ar dudalen 17), caiff y fanyleb ei diwygio fel a ganlyn.

Ysgrifenyddion ac adnabod llais

Ni cheir defnyddio ysgrifenyddion dynol na systemau adnabod llais fel addasiad rhesymol i arddangos sgiliau ysgrifennu pan fydd gallu'r ymgeisydd i ysgrifennu yn cael ei asesu.

Mae'r broses o ddefnyddio llefaru a recordio a ddisgrifir ar dudalen 17 yn broses sydd wedi'i chaniatáu ers peth amser dan y trefniadau presennol, a gallai barhau dan ein cynigion. Fodd bynnag, bydd yn bwysig monitro'r sefyllfa a chael adborth gan ganolfannau ac ymgeiswyr anabl ynghylch parhau i reoli'r addasiad rhesymol hwn i'r dyfodol.

Iaith Arwyddion Prydain

Y sefyllfa bresennol

Nid yw defnyddio iaith Arwyddion Prydain (BSL) ar gael fel addasiad rhesymol yng nghydrannau siarad a gwrando'r rhan fwyaf o gymwysterau Cymraeg, Saesneg ac iaith dramor fodern.

Dyma'r prif resymau dros hyn:

- mae BSL yn cael ei chydabod fel iaith yn ei rhinwedd ei hun. Mae llawer o randdeiliaid yn teimlo nad yw hi'n briodol cynnwys BSL mewn arholiad a elwir yn 'Cymraeg', Saesneg' neu 'Ffrangeg'.
- mae meini prawf cyfredol cymwysterau TGAU Cymraeg, Saesneg ac ieithoedd tramor modern yn cyfeirio'n benodol at y gallu i siarad a gwrando, ac nid ydynt yn cyfeirio at gyfathrebu anysgrifenedig yn yr ystyr ehangach.

Os nad yw ymgeiswyr yn gallu defnyddio dulliau gwahanol o gyfathrebu megis darllen gwefusau, llais byw neu Saesneg â chymorth arwyddion, gellir gofyn am esemptiadau ar gyfer cydrannau siarad a gwrando.

Cynigion

Yn y tymor hwy, byddem yn dymuno datblygu dull gweithredu mwy cyson o ran defnyddio BSL ar draws pob cymhwyster Cymraeg, Saesneg ac iaith dramor fodern. Fodd bynnag, ceir rhesymau clir dros beidio â chaniatáu defnyddio BSL mewn cymwysterau a ddatblygwyd dan amcanion asesu a meini prawf pwnc cyfredol.

Manyleb

Iaith Arwyddion Prydain

Ni ddylid defnyddio Iaith Arwyddion Prydain fel addasiad rhesymol pan fydd gofyn i ymgeiswyr arddangos eu gallu i siarad neu wrando.

Nid yw'r fanyleb yn effeithio ar ymgeiswyr anabl sy'n dilyn cymwysterau nad ydynt yn asesu gallu i siarad na gwrando, ond mae goblygiadau ar gyfer y rheini sy'n dilyn cymwysterau Cymraeg, Saesneg neu iaith dramor fodern.

Er enghraifft, mewn asesiad gwrando TGAU Almaeneg, ni ddylid caniatáu defnyddio BSL. Byddai defnyddio BSL yn golygu nad oedd yr ymgeisydd yn dangos ei allu i ddeall Almaeneg llafar, sy'n un o amcanion yr asesiad.

Gall ymgeiswyr anabl nad ydynt yn gallu cael mynediad i gydrannau siarad a gwrando cymwysterau Cymraeg/Saesneg/ieithoedd tramor modern ofyn am addasiadau rhesymol eraill o hyd, yn cynnwys dehonglwyr llais awgrymol neu esemptiadau o'r cydrannau hyn.

Yn ein hymgyngghoriad ar-lein, roedd 67 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r fanyleb hon a rhoddodd 25 y cant ateb niwtral. Mae'n faes cymhleth a hyd yn oed pan oedd ymatebwyr o blaid caniatáu defnyddio BSL, roeddent yn cydnabod yr anawsterau. Roedd BATOD wedi crynhoi'r anawsterau fel a ganlyn: 'Dylai'r nifer fach o fyfyrwyr byddar sy'n defnyddio BSL gael caniatâd i wneud hynny yn y gydran siarad a gwrando, ond dim ond os nad Saesneg yw enw'r arholiad mwyach'. Gwnaeth Agored Cymru bwynt tebyg, '...mae'n dibynnu'n union pa gymhwysedd sy'n cael ei brofi, y gallu i siarad neu'r gallu i gyfathrebu'.

Roedd ymateb CBAC yn gadarnhaol. 'Mae CBAC yn cytuno â'r cynnig... Byddai newid o'r sefyllfa uchod yn arwain at oblygiadau difrifol ar gyfer asesu siarad a gwrando. Dylid cynnal a chadw'r sefyllfa bresennol'.

Roedd Diverse Cymru yn cytuno â'n cynnig ond roeddent yn awgrymu y dylid gwneud y cymwysterau dan sylw yn fwy cynhwysol. 'Rydym yn cydnabod bod iaith Arwyddion Prydain yn iaith yn ei rhinwedd ei hun a dylid ei chydabod felly. O'r herwydd, rydym yn cytuno nad yw asesu sgiliau dehongli 'Cymraeg', 'Saesneg' neu iaith arall i BSL yn asesu'r sgiliau hynny. Serch hynny, byddem yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried addasiadau i'r cymwysterau eu hunain...'

Roedd y Ganolfan Ymchwil i Gymunedau Ar-lein a Systemau E-ddysgu yn anghytuno â'r cynnig i gyfyngu ar ddefnydd BSL. Ymatebodd y Ganolfan drwy ddweud, 'Mae gallu gwrando yn golygu mwy na gallu clywed yn unig; mae'n ymwneud â deall beth mae eraill yn ei ddweud. Dealltwriaeth a'r gallu i ffurfio ymateb yw hanfod siarad/gwrando'.

Awgrymodd NUT Cymru fod y sefyllfa'n gymhleth ac, 'Mewn egwyddor, mae'r ddadl na ddylid defnyddio BSL fel addasiad yn ddilys oherwydd ei fod yn tanseilio'r gallu i brofi gallu'r ymgeiswyr i siarad a gwrando. Fodd bynnag, nid yw'n ateb du a gwyn syml. Dylid ystyried amgylchiadau unigol a chynhyrchu rhagor o ganllawiau'.

Camau nesaf

Rydym am lunio manyleb ynghylch 'Iaith Arwyddion Prydain' fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori gydag un newid. Er mwyn tynnu sylw at natur orfodol y fanyleb, dylid dileu 'Ni ddylid...' a rhoi 'Ni cheir....' yn ei le. Mae'n bosibl y caiff y fanyleb ei diwygio pan fydd y meini prawf cymwysterau perthnasol yn cael eu hadolygu nesaf. Bydd llawer yn dibynnu ar y pwyslais ar 'siarad', 'gwrando' neu 'gyfathrebu' yn y meini prawf cymhwyster diwygiedig.

Cynorthwyr ymarferol

Y sefyllfa bresennol

Ni chaniateir i gynorthwyr ymarferol arddangos sgiliau corfforol ar ran ymgeisydd lle mae'r sgiliau corfforol hynny yn rhan o amcanion asesu cymhwyster.

Cynigion

Mae ein manyleb arfaethedig yn adlewyrchu'r trefniadau cyfredol, gan y gallai ceisio bod yn fwy hyblyg danseilio gallu cymwysterau i roi darlun dibynadwy o sgiliau'r ymgeisydd, a gallent hefyd danseilio ffydd y cyhoedd. Ar ben hynny, ni fyddai caniatáu i gynorthwyr ymarferol arddangos sgiliau corfforol ar ran ymgeisydd anabl, o reidrwydd, yn lleihau anfantais, gan na fyddai'r ymgeisydd yn cael ei asesu ar ei alluoedd ei hunan.

Manyleb

Cynorthwywyr ymarferol

Ni ddylid defnyddio cynorthwywyr ymarferol fel addasiad rhesymol pan fydd gofyn i ymgeiswyr gyflawni tasgau corfforol neu arddangos sgiliau corfforol sy'n rhan o amcanion asesu'r cymhwyster.

Mae'r fanyleb arfaethedig yn golygu, mewn cymhwyster cerdd er enghraifft sy'n asesu'r ymgeisydd ar ei allu i chwarae'r ffidil, ni fyddai cynorthwydd ymarferol yn cael arddangos y sgiliau hynny ar ran yr ymgeisydd. Mae'n debyg y bydd yn golygu na fydd rhai cymwysterau ymarferol yn agored i ymgeiswyr gydag anableddau penodol, ond yn amlwg gallai'r dewis arall, sef defnyddio cynorthwydd ymarferol, effeithio ar ffydd y cyhoedd yn nilysrwydd y cymhwyster.

Ar y llaw arall, mae'n bosibl y byddai angen cynorthwydd ymarferol ar ymgeisydd sydd â nam ar ei symudedd i droi tudalennau mewn arholiad ysgrifenedig, neu symud offer mewn asesiad ymarferol gwyddonol. Gallai cynorthwydd ymarferol gyflawni'r tasgau hyn oherwydd nid yw'r sgiliau corfforol hyn yn rhan o amcanion yr asesiad.

Roedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein yn dangos bod cyfran uchel yn cytuno â'r fanyleb hon (83 y cant).

Cafwyd nifer fach o sylwadau'n unig am y fanyleb hon. Roedd Gwasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig yn cytuno â'r cynnig. 'Yn ein barn ni, dylid cyfyngu ar swyddogaeth cynorthwywyr ymarferol mewn arholiadau i gyflawni tasgau sy'n cynorthwyo'r ymgeisydd ond nad ydynt yn ffurfio rhan o amcanion yr asesiad. Rydym yn croesawu'r ffaith bod y cynigion yn adlewyrchu'r trefniadau gweithio presennol'.

Pwysleisiodd Diverse Cymru bwysigrwydd eglurder. 'Rydym yn cefnogi'r syniad o sicrhau bod y diffiniad 'gofyn i ymgeiswyr gyflawni tasgau corfforol neu arddangos sgiliau corfforol' mor gul â phosibl, fel y nodwyd yn y dogfennau ymgynghori. Unwaith eto, byddem yn argymhell llunio canllawiau clir i Gyrff Dyfarnu o ran pa bryd y bydd tasg gorfforol yn cael ei hasesu a pha bryd y mae'n rhan o'r amgylchiadau'n unig, er mwyn sicrhau nad yw ymgeiswyr anabl dan anfantais oherwydd hyn'.

Gwnaethpwyd pwynt tebyg gan RNIB, 'Mae defnyddio cynorthwywyr ymarferol yn aml yn golygu ffin denau rhwng beth sy'n cael ei ganiatáu a beth sydd ddim, yn dibynnu ar natur y cymhwyster... Felly, mae'n bwysig iawn bod y fanyleb ar gyfer pob cymhwyster yn egluro, ar ffurf taflenni ar gynhwysiant, pa lefel o gymorth ymarferol y gellir ei rhoi ar gyfer tasgau gwahanol'.

Camau nesaf

Rydym am lunio manyleb ynghylch 'cynorthwywyr ymarferol' fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori gydag un newid. Er mwyn tynnu sylw at natur orfodol y fanyleb, dylid dileu 'Ni ddylid...' a rhoi 'Ni cheir....' yn ei le. Byddwn yn monitro'r sefyllfa ac yn cael adborth gan ganolfannau ac ymgeiswyr anabl ynghylch rheoli'r addasiad rhesymol hwn i'r dyfodol.

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru (CBC)

Mae CBC yn cynnwys gofyniad Craidd, y mae pob dysgwr yn ei gwblhau, ac Opsiynau, sy'n cael eu dewis o'r ystod o gymwysterau perthnasol a gymeradwyir ar gyfer eu defnyddio yng Nghymru.

Y sefyllfa bresennol

Ar gyfer yr Opsiynau, defnyddir addasiadau rhesymol, gan gynnwys esemptiadau, fel y'u pennwyd ar gyfer y cymwysterau unigol dan sylw.

Ni ellir caniatáu unrhyw esemptiad o ofyniad Opsiwn CBC. Mae hyblygrwydd sylweddol eisoes ar gael, gan fod dysgwyr yn gallu dewis eu Hopsiynau o blith yr ystod lawn o gymwysterau perthnasol y cymeradwyir eu defnyddio yng Nghymru.

Yn yr un modd, ni ellir caniatáu unrhyw esemptiad o'r Craidd, er bod hyblygrwydd yn y model CBC ar gyfer y cymwysterau Sgiliau Allweddol/ Sgiliau Hanfodol Cymru a gaiff eu hastudio.

Cynigion

Mae ein manyleb arfaethedig yn adlewyrchu'r trefniadau presennol oherwydd maent wedi profi'n effeithiol. Gallai newid y rhain danseilio ffydd y cyhoedd a ffydd addysg uwch yn y CBC fel cymhwyster sy'n darparu profiadau ehangach na rhaglenni dysgu traddodiadol.

Mae'r fanyleb wedi'i chyfyngu i'r cyfyngiad ar esemptiadau a nodwyd uchod.

Manyleb

Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

O fewn Cymhwyster Bagloriaeth Cymru, ni ddylai cyrff dyfarnu fod â dyletswydd i eithrio ymgeiswyr o:

- | |
|--|
| <ul style="list-style-type: none">(a) y gofyniad opsiwn;(b) elfennau Sgiliau Allweddol / Sgiliau Hanfodol Cymru; Cymru, Ewrop a'r Byd; Addysg Bersonol a Chymdeithasol; Addysg Gysylltiedig â Gwaith ac Ymchwiliad Unigol y craidd. |
|--|

Er bod y fanyleb, o bosibl, yn ymddangos yn gaeth, mae'n bwysig cydnabod yr angen i gynnal ffydd yn y cymhwyster. Hefyd, er na chaniateir esemptiadau, mae dyletswydd ar sefydliadau dyfarnu o hyd i ddarparu addasiadau rhesymol i'r CBC.

Er enghraifft, ni ddylai ymgeisydd anabl Lefel 2 (canolradd) y CBC gael esemptiad o'r gofyniad i gyflawni pedwar cymhwyster Sgiliau Allweddol/ Sgiliau Hanfodol Cymru. Fodd bynnag, gellid hepgor y gofyniad i gyflawni pob un o'r cydrannau Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a TGCh: byddai unrhyw ddau o'r rhain yn dderbyniol. Hefyd, gall dysgwyr gyflwyno'r Ymchwiliad Unigol naill ai'n ysgrifenedig neu ar lafar a cheir cryn hyblygrwydd yn y ffyrdd y gellir cwblhau'r

cydrannau Cymru, Ewrop a'r Byd, Addysg Bersonol a Chymdeithasol⁶ ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith.

Yn yr ymgynghoriad ar-lein, roedd 75 y cant o'r ymatebwyr yn cytuno â'r fanyleb hon. Roedd yr ymatebion eraill yn niwtral: nid oedd neb yn anghytuno.

Cafwyd ymateb cadarnhaol gan Wasanaeth Addysg yr Eglwys Gatholig. 'Rydym yn cytuno y dylai'r holl ymgeiswyr sy'n dilyn y CBC gwblhau'r elfennau craidd sef Cymru, Ewrop a'r Byd, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, ac Addysg gysylltiedig â gwaith. Mae hyn yn arbennig o wir gan fod modd gwneud y rhain mewn ffordd hyblyg a bod addasiadau rhesymol eraill wedi'u caniatáu. Fel ein hymateb i gwestiynau blaenorol, rydym yn croesawu'r ffaith bod y cynigion yn adlewyrchu'r trefniadau presennol sydd wedi profi'n effeithiol'.

Roedd CYDAG hefyd wedi ymateb yn gadarnhaol, ond gwnaethant dynnu sylw at gyfyngiad sy'n effeithio ar ymgeiswyr Cyfrwng Cymraeg. 'Noda'r ddogfen ymgynghorol at yr Opsiynau gan ddweud 'bod dysgwyr yn gallu dewis eu Hopsiynau o blith yr ystod (lawn) o gymwysterau perthnasol y cymeradwyir eu defnyddio yng Nghymru'. Nid yw'r ystod lawn honno ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd'⁷.

Sefydliad arall a gyflwynodd ymateb cadarnhaol oedd Estyn. 'Mae'r trefniadau presennol ar gyfer y Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn lleihau'r graddau y mae ymgeiswyr anabl dan anfantais, gan sicrhau bod y cymhwyster yn rhoi darlun dibynadwy o wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth yn ogystal â chynnal ffydd y cyhoedd yn y cymhwyster'.

Er ei bod yn cytuno â'r cynnig, pwysleisiodd y Ganolfan Ymchwil i Gymunedau Ar-lein a Systemau E-ddysgu yr angen i gael addasiadau rhesymol priodol i wella mynediad i'r CBC. 'Dylid gwneud addasiadau rhesymol i alluogi unigolyn anabl i'w gwblhau. Gan fod Bagloriaeth Cymru yn gyfystyr â gradd-A mewn Safon Uwch, byddai rhoi esemptiadau yn ei thanseilio'.

Cyflwynodd CBAC ymateb ar wahân i'r cwestiynau 'opsiwn' a 'craidd'. 'O safbwynt yr opsiynau, mae CBAC yn cytuno na ddylid gwneud addasiadau ychwanegol. Gan fod yr opsiynau'n gymwysterau annibynnol, bydd yr holl addasiadau rhesymol wedi'u gwneud drwy'r sefydliad dyfarnu perthnasol. O safbwynt y craidd, mae elfennau megis Cymru, Ewrop a'r Byd, Addysg Bersonol a Chymdeithasol, Addysg Gysylltiedig â Gwaith, a'r Ymchwiliad wedi'u hysgrifennu mewn ffordd sy'n rhoi hyblygrwydd i ddysgwyr gyflwyno'u gwaith mewn dull sy'n gweddu orau i'w hanghenion unigol. Fodd bynnag, mae Sgiliau Hanfodol Cymru hefyd yn rhan o'r craidd ac o'r herwydd, mae'r safonau'n benodol iawn. Yn y maes hwn, mae CBAC yn teimlo y dylid cadw'r esemptiadau presennol (ar gyfer Sgiliau Allweddol) yn L2 a L3'.

⁶ *Addysg Bersonol a Chymdeithasol (Addysg Bersonol a Chymdeithasol)*

⁷ Cyflwynwyd yr ymateb yn Gymraeg.

Camau nesaf

Rydym am lunio manyleb ynghylch 'Cymhwyster Bagloriaeth Cymru' fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori gydag un newid. Er mwyn tynnu sylw at natur orfodol y fanyleb, dylid dileu '...ni ddylai cyrff dyfarnu fod â dyletswydd...' a rhoi '...nid oes dyletswydd ar gyrff dyfarnu....'. Byddwn yn monitro'r sefyllfa ac yn nodi unrhyw adborth ynghylch yr addasiad rhesymol hwn. Mae'n bosibl y bydd y fanyleb arfaethedig yn cael ei diwygio o ganlyniad i ddatblygiadau yng Nghymhwyster Bagloriaeth Cymru yn y dyfodol.

Materion ychwanegol

Yn yr ymgynghoriad ar-lein, gofynnwyd i ymatebwyr a oedd unrhyw faterion cysylltiedig nad oeddem wedi rhoi sylw penodol iddynt.

Gofynnodd BATOD pam nad oedd cynigion ynghylch addaswyr iaith lafar. Y rheswm am hyn yw mai pwerau negyddol yn hytrach na phwerau caniatol sydd gan y rheoleiddwyr. Ar hyn o bryd nid ydym yn cynnig cyfyngu ar ddefnydd addaswyr iaith lafar fel addasiad rhesymol.

Gwnaeth Diverse Cymru gais am hyblygrwydd a chymwysterau mwy hygyrch. 'I grynhoi, rydym yn cytuno ar y cyfan â rhan fwyaf y cynigion yn y dogfennau ymgynghori, ond byddem yn annog Llywodraeth Cymru a'r Cyrff Dyfarnu i fod yn hyblyg i anghenion ac amgylchiadau pob unigolyn; i sicrhau bod y cymwysterau yn cael eu llunio yn y dyfodol gydag addasiadau rhesymol mewn cof; ac i sicrhau bod cyfarwyddyd clir iawn ar gyfer Cyrff Dyfarnu ac athrawon am yr amgylchiadau penodol iawn lle mae'r meini prawf hyn yn berthnasol, a lle dylid archwilio addasiadau rhesymol eraill'.

Mae'r pwerau a roddwyd i reoleiddwyr dan adran 96 o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn rhai negyddol. Golyga hynny y gallwn osod terfyn i'r addasiad y gellir ei wneud, ond ni allwn bennu pa addasiadau y dylid eu gwneud. Mae'r ddyletswydd dros wneud addasiadau rhesymol ar sefydliadau dyfarnu o hyd, a rhaid iddynt bwysu a mesur pa addasiadau allai fod yn rhesymol mewn unrhyw amgylchiadau unigol.

Bydd sefydliadau dyfarnu, wrth bwysu a mesur ceisiadau am addasiadau rhesymol, yn ystyried anghenion unigol. Mae ein cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn benodol iawn i amgylchiadau arbennig.

Gwnaethpwyd pwynt tebyg ynghylch mynediad gan Estyn. 'Yn ystod proses adolygu meini prawf cymwysterau ar gyfer mynediad a chynhwysiant, gobeithiwn y bydd cymwysterau, dros amser, yn dod yn fwy hygyrch. Bydd hyn yn lleihau'r angen am esemptiadau ac addasiadau rhesymol. Bydd hyn yn allweddol wrth leihau'r graddau y mae ymgeiswyr anabl dan anfantais'. Fel y nodwyd yn y ddogfen 'Mynediad teg drwy gynllunio: Canllawiau i reoleiddwyr cymwysterau a chyrff dyfarnu ar gynllunio cymwysterau cynhwysol' (sydd i'w weld [yma](#)), yw nod y rheoleiddwyr hefyd.

Pwysleisiodd NUT Cymru bwysigrwydd cymharu. 'Er ei fod yn ddealladwy y bydd Gweinidogion yn dymuno adolygu'r trefniadau yn sgil eu pwerau newydd

ynghylch addasiadau rhesymol, mae'n hanfodol bod unrhyw amrywiadau i'r trefniadau presennol yn cael eu gwneud mewn trafodaethau â'r rheoleiddwyr arholiadau yn Lloegr a Gogledd Iwerddon a gyda'r JCQ'. Mae hwn wedi bod yn un o'n hamcanion, ac mae'r manylebau a gynigwn ar gyfer Cymru wedi'u halinio â'r rheini a wnaed gan Ofqual yn Lloegr. Nid yw'r pwerau dan adran 96 o'r Ddeddf Cydraddoldeb yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon ar hyn o bryd.

Tynnodd RNIB sylw at nifer o faterion yn ymwneud â phapurau a addaswyd, gan ddatgan '...bod perygl y gallai hwylustod gweinyddol y system hawlio mwy o sylw nag anghenion ymgeiswyr unigol'. Hefyd, pwysleisiodd RNIB yr angen i gynllunio e-asesu yn gynhwysol.

Sylwadau clo

Ar y cyfan, roedd rhan fwyaf yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar-lein yn cytuno â'n cynigion. Fel y nodwyd yn flaenorol, er bod nifer yr ymatebion ar y cyfan yn isel, roedd yn dilyn ymgynghoriad anffurfiol helaeth gyda rheoleiddwyr cymwysterau'r DU, sefydliadau dyfarnu a chynrychiolwyr grwpiau anabledd.

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad; rhoddwyd sylw i'ch barn fel rhan o'r broses gwneud penderfyniad. Mae'r ymatebwyr wedi mynd ati'n ofalus i ddarparu sylwadau craff sydd wedi bod yn ddefnyddiol iawn wrth i ni ddadansoddi'r ymatebion i'r cwestiynau a bennwyd.

Rydym wedi cyflawni Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb manwl ar y manylebau hyn, o ran nodweddion gwarchodedig yr anabledd. Gellir gweld yr asesiad effaith yn: www.cymru.gov.uk/topics/equality

Mae'r manylebau terfynol wedi'u cyhoeddi a gellir eu gweld www.cymru.gov.uk/topics/educationandskills/qualificationsinwales/access